Ymateb Cylch yr Iaith

Dymunwn godi nifer o gwestiynau i ddechrau. Mae angen eglurhad ar rai ymadroddion pwysig. Dilynir hyn gan sylwadau cyffredinol ar rai materion o bwys yn ein golwg. Terfynwn gydag ateb yr Holiadur yn Atodiad B.

Credwn ni y gallai'r 'Ail Sianel' gynnwys y Gwasanaeth Plant, y dangoswch chwi yn Rhan 2 y papur hwn fod dadl anwadadwy drosto, ynghyd â Gwasanaeth Addysg Oedolion (gyda chymorth cyllido, o bosibl, o du'r Cynulliad) a'i ddarparu gan Adrannau Addysg Gydol Oes Prifysgol Cymru ac Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Aberystwyth (sydd ers tro byd yn cynnig gradd allanol trwy gyfrwng y Gymraeg). Posibilrwydd arall yw y gallai fod yn gyfrwng at wasanaeth Coleg Cymraeg Ffederal y mae Llywodraeth y Cynulliad bellach wedi ymrwymo i'w sefydlu.

Rhan 1

3.1.2 (a) Beth yw union ystyr 'gwasanaeth(au) ... ar gyfer pobl ifanc yn bennaf?
(b) Beth a olygir wrth 'gwasanaeth lle y mae cyfran sylweddol o'r rhaglenni yn rhaglenni Cymraeg'? A yw'n oblygedig yn hyn y bydd yna raglenni Saesneg ar y gwasanaeth newydd?

3.4.1.3 (i) Pam 'polisi iaith Gymraeg' ar gyfer gwasanaeth sy'n darparu rhaglenni i blant Cymraeg eu hiaith? A oes bwriad i gynnwys canllawiau yn cyfiawnhau defnydd o'r Saesneg yn y 'polisi iaith Gymraeg' sydd gennych mewn golwg? Beth a olygir wrth 'gwasanaeth i Blant yng Nghymru yn bennaf? A pham y pwyslais ar fod yn berthnasol i bob Plentyn yng Nghymru'? Perthnasol i blant sy'n deall Cymraeg - mae hynny'n ddealladwy ond nid, 'does bosib, i blant uniaith Saesneg.

3.4.1.5/6 Croesawn hyn ond carem weld mwy o bwyslais ar ystyried chwilfrydedd plant ynghylch y byd o'u cwmpas yn gyffredinol, ac ar eu deallusrwydd. Llawer rhy gyfyngedig yw'r cyfeiriad at 'adloniant' a 'rhaglenni newyddion' fel cyfryngau i gyrraedd at ddiddordebau ac anghenion diwylliannol plant. Sylwn eich bod yn sôn am addasu rhai o raglenni dogfen S4C ar eu cyfer. Purion, ond cael gwared â'r Saesneg sydd yn rhan o gymaint o'r rheiny ar hyn o bryd. Awgrymwn dynnu hefyd ar, er enghraifft, greadigrwydd ymarferol megis dylunio a gwaith llaw, sylw i gelf ac arlunwyr/cerflunwyr/cerddorion unigol, adroddiadau teithiau antur, bywyd gwyllt a'r amgylchedd naturiol, bywgraffiadau llenorion/beirdd/dramodwyr, darganfyddiadau cyffrous gwyddoniaeth, golwg ar wahanol ddiwylliannau'r byd, hanes cymdeithasol, gwybodaeth am fframweithiau a syniadau gwleidyddol, ac ati.

3.6 Gobeithiwn y gwelir arolygu cyson ar gymhwyso egwyddor Datganoli Rhanbarthol ynghylch Darparu Rhaglenni (allweddol i ffyniant economaidd gytbwys ein gwlad) o dan y drefn newydd. Yr un pryd, gobeithiwn na chaniateir i ddyrnaid o gwmnïau annibynnol pwerus oruwchlywodraethu ar y ddarpariaeth honno. Mae creadigrwydd (syniadaeth ac ymdriniaeth) yn debycach o'i amlygu ei hun lle ceir amlder cwmnïau. Gyda llaw, onid meithrin doniau Cymru sy'n berthnasol i S4C ("Meithrin Talent yn y DU")?

Rhan 2

2.1 Yn wyneb yr hyn sy'n digwydd i'r iaith, dyletswydd S4C fel gwasanaeth teledu Cymraeg cyhoeddus yw darlledu rhaglenni mewn Cymraeg graenus, difratiaith, dilediaith a di-Saesneg, - rhaglenni bywiog a difyr eu cynnwys, boed nhw'n rhaglenni i'w gwylio gartref neu'n rhaglenni addysgiadol i'w gwylio yn yr ysgol.

Atodiad B. (Atebion).

1. Ydym.

2. Nid ar hyn o bryd.

3. O ran nodweddion cynnwys ac ansawdd rhaglenni, gweler ein sylwadau ar 3.4.1.5/6.

4. Ffafriwn Ddewis 2 ond gyda'r amod y gellir trefnu i ddarlledu trafodaethau'r Cynulliad naill ai ar Wasanaeth Radio neu trwy gyfrwng rhaglen deledu (o gwmpas awr o hyd, gyda'r hwyr) o ddetholion trafodaethau'r dydd. Sylwer ein bod eisoes wedi awgrymu y gallai Gwasanaeth Addysg Oedolion fod yn rhan o'r Gwasanaeth Newydd. Fel yn achos 1 uchod, credwn mai rhesymol a fyddai disgwyl i'r Cynulliad ei hun gyfrannu at unrhyw dreuliau ychwanegol a allai godi o ddarparu rhaglen o'r fath.

5. Ni chredwn ein bod mewn sefyllfa i lunio barn ynglŷn â hyn.

6. Methwn â deall sut na chynhwyswyd unrhyw sefydliad crefyddol yn y rhestr dan sylw. Mae gan sefydliadau felly, fel rheol, Swyddogion ieuenctid ac, yn sicr ddigon, gyfundrefn Ysgolion Sul sy'n cynnwys nifer dda o blant yn aelodau ohonynt.

7. Yn waelodol i'n syniad ni am ddarlledu Cymraeg y mae'r egwyddor mai **yn Gymraeg** y dylai darlledwyr Cymru gyflwyno eu rhaglenni ac mai iaith i'w chyfieithu i'r Gymraeg yw unrhyw Saesneg a ddigwydd fod ynghlwm wrthynt. O raid, mae cyfieithu yn arferedig ymhob cyfundrefn ddarlledu o dan haul ac nid oes unrhyw rwystr technegol rhag gwneud hynny. A ninnau'n ymwneud yma â rhaglenni ar gyfer plant a phobl ifanc Cymraeg eu hiaith, mae'n eithriadol bwysig i ofalu fod y rhaglenni hynny yn ddigamsyniol Gymraeg: ategiad gwir berthnasol i'r ymdrechion a wneir gan athrawon ac athrawesau Cymraeg yn ein hysgolion a chan lu o Gymry mewn amrywiol sefyllfaoedd cymdeithasol. Rhaid ystyried Gwasanaeth Darlledu Cymraeg, ymhob gwedd arno, yng ngoleuni un ffaith na ellir ei hanwybyddu sef bregusrwydd y Gymraeg yn wyneb grymuster ysgubol y diwylliant Eingl-Americanaidd. Mae synied yn gysurus-gynnes am gynnydd dwyieithrwydd mewn ysgolion yn anghymwynas o'r mwyaf â'r diwylliant Cymraeg. Dyna pam y mae'n rhaid inni - ac y bydd yn rhaid inni - wrth rai sefydliadau cenedlaethol sydd yn drwyadl Gymraeg eu gweithgareddau. Mae'r Gwasanaeth Plant yn rhan greiddiol o'r Sefydliad Darlledu Cymraeg.

Ieuan Wyn (Ysgrifennydd) ar ran Cylch yr Iaith
Cyfeiriad: Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda, Gwynedd LL57 3SG
Ffôn: 01248 600297 E-bost: cylch@tiscali.co.uk